

BRO MORGANNWG
CYNLLUN DATBLYGULLEOL NEWYDD 2021-2036

SIOPAU CLUDFWYD POETH

Tachwedd 2025



PAPUR CEFNDIR - BP35



Crynodeb Gweithredol

- i. Mae'r papur cefndir hwn yn un o gyfres a gynhyrchwyd gan Gyngor Bro Morgannwg ac mae'n rhan o'r sylfaen dystiolaeth i lywio'r polisiâu a'r dyraniadau safleoedd yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adneuo (CDLIN). Gellir darllen pob papur cefndir ar ei ben ei hun neu ynghyd â phapurau cefndir eraill i gael dealltwriaeth ehangach o'r materion defnydd tir sy'n wynebu Bro Morgannwg.
- ii. Mae'r papur hwn yn nodi ymateb y Cyngor i bolisi cenedlaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Fro Morgannwg ystyried effeithiau hirdymor penderfyniadau ac atal heriau parhaus, gan gynnwys anghydraddoldeb iechyd a thlodi er mwyn cyflawni 'Cymru iachach' fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Yn ogystal, mae'n ymateb i'r ymwybyddiaeth o'r effeithiau y mae ein dietau yn eu cael ar ein hiechyd, lefelau uwch o ordewdra a'r uchelgais i greu systemau bwyd cryfach a mwy gwydn, iachach.
- iii. Mae'r papur yn adolygu polisi cenedlaethol a lleol presennol ynghylch tecawê bwyd poeth a bwyta'n iach a gordewdra i nodi a oes angen canllawiau pellach. Mae'n asesu'r materion cynllunio ac iechyd sy'n ymwneud â lleoedd tecawê bwyd poeth ym Mro Morgannwg, gan nodi arwyddocâd a graddfa'r problemau.
- iv. Yna mae'r papur cefndir yn gwneud argymhellion ar reoli siopau tecawê bwyd poeth yn y dyfodol o fewn canolfannau manwerthu dynodedig Bro Morgannwg yn rhanbarth yr Awdurdod Lleol. Awgrymwyd cyfyngiad ar ganran y siopau tecawê bwyd poeth fel cyfanswm nifer yr unedau mewn canolfan fanwerthu. Mae hyn yn amrywio ar draws gwahanol fathau o ganolfannau manwerthu yn yr hierarchaeth a maint y ganolfan yn ôl cyfanswm yr unedau. Awgrymwyd cyfyngiad i atal clystyru unedau wrth ymyl ei gilydd hefyd. Aseswyd parthau gwahardd siopau tecawê mewn perthynas â'u hagosrwydd at ysgolion uwchradd fel rhan o'r papur cefndir hwn ond daeth i'r casgliad nad oedd angen i'r Fro gynnwys polisi o'r fath.



Cyngor Bro Morgannwg

Cyfarwyddiaeth Lleoedd

Swyddfeydd Dinesig

Heol Holltwn

Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk

www.bromorgannwg.gov.uk

